

Cyf: PED/dd

29 Hydref 2020

Annwyl riant/warcheidwad

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dim ond disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac 8 y disgwylir i ddychwelyd i'r ysgol o ddydd Llun 2il o Dachwedd.

Bydd disgyblion ym Mlwyddyn 9, 10 ac 11 yn dychwelyd yr wythnos ganlynol, o ddydd Llun 9fed o Dachwedd. Disgwylir i ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn ymgysylltu â dysgu ar-lein yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 2il o Dachwedd.


Yn ychwanegol a'n gweithdrefnau cyfredol, ac fel rhagofalon ychwanegol, nodwch y canlynol:

- Ar ôl cyrraedd yr ysgol, bydd aelod o staff yn gwirio tymheredd pob disgybl. Gofynnir i rieni gasglu disgyblion sy'n arddangos tymheredd sylweddol uwch na'r arfer. Cadwch eich plentyn gartref os oes ganddo/i dymheredd uwch na'r arfer, neu os yw'n teimlo'n sâl. Cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl.
- Sicrhewch fod eich plentyn/plant yn dilyn y rheolau ynglŷn â gwisgo masgiau ar gludiant ysgol. Mae hefyd yn bwysig iawn eu bod yn cadw at gynlluniau seddi trafndiaeth wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Dyluniwyd cynlluniau seddi i gyd-fynd â grwpiau yn yr ysgol. Os yn bosibl (ac yn berthnasol), ystyriwch ddod â'ch plentyn/plant i'r ysgol mewn car yn hytrach na defnyddio'r bws.

Rydym yn falch o'r lefel uchel o gydymffurfio a derbyn ein gweithdrefnau mae'r disgyblion yn dangos. Fodd bynnag, gyda thywydd garw ar fin cyrraedd, bydd yn bwysicach fyth eu bod yn cadw at ein disgwyliadau a'n prosesau. Gofynnaf felly am eich cefnogaeth i atgyfnerthu'r negeseuon allweddol hyn. Dyluniwyd ein gweithdrefnau i gadw pawb mor ddiogel â phosibl, a delir â disgyblion sy'n peryglu eraill trwy wrthod dilyn ein prosesau yn unol â'n polisi ymddygiad. Cysylltir â rhieni/gofalwyr os ydym yn teimlo y bydd angen.

Rwy'n siarad dros holl staff Ysgol Bro Gwaun wrth ddweud ein bod yn edrych ymlaen at groesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol dros wythnosau nesaf.

Yr eiddoch yn gywir



Mr P Edwards  
Pennaeth

